



# Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau  
See Policy Review Timetable*

# POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

## 1. Nodau ac amcanion y polisi fydd:

Mae ein hysgol yn anelu at:

- Ddarparu cwricwlwm camddefnyddio sylweddau eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol pob dysgwr ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn. Rydym yn anelu at fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi disgyblion i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
- Darparu dull safonol o reoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â sylweddau gan roi sylw dyledus i'n rhwymedigaethau cyfreithiol, i warchod lles y gymuned ysgol gyfan a rhoi negeseuon priodol i staff, disgyblion a rhieni/ gofawyr gan sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei drin yn gyson
- Darparu amgylchedd di-fwg diogel i bawb

## 2. Cysylltiadau i ganllawiau cenedlaethol a pholisïau eraill yr ysgol

Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu gan gyfeirio at ddogfennau canlynol Llywodraeth Cymru:

- Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 - 2018
- Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2013)
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (2008)
- Cwricwlwm Gwyddoniaeth (2008)
- Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) (2007)
- Canllawiau ar gyfer Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) yn Cydweithio - Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion - Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Heddlu ac Ysgolion
- Polisi CrimeBeat Ysgolion - Protocol ar gyfer Heddlu sy'n Cefnogi Ysgolion gyda Digwyddiadau ar gyfer Trosedd ac Anhrefn. Dogfen Gyfeirio ar gyfer Staff yr Ysgol (2012)
- Trefnau Diogelu Plant Cymru (2008)
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Ni ddylid edrych ar y polisi hwn ar ben ei hun am fod ganddo gysylltiadau clir â'r polisïau ysgol a ganlyn:

- Ymddygiad a Rheolaeth Cadarnhaol
- Gweinyddu Meddyginiaeth
- Gwrth fwlio/ Parchu Eraill
- Iechyd a Diogelwch:
- Ymweliadau Ysgol
- Diogelu
- Diogelu Plant
- Addysg Bersonol A Chymdeithasol (ABCh)
- Cydraddoldeb
- Disgyblu Staff
- Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol

## 3. Diffiniadau a therminoleg

Y diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir ar gyfer y polisi hwn yw - *'Mae sylwedd yn rhywbeth y mae pobl ei gymryd i newid y ffordd y maent yn teimlo, yn meddwl neu'n ymddwyn'* (Y Cenhedloedd Unedig). At ddibenion y polisi hwn, mae hyn yn cynnwys ystod eang o sylweddau, yn rhai cyfreithlon ac anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys :

- Tybaco, gan gynnwys sigarêts electronig

- Alcohol
- Meddyginiaethau dros y cownter
- Meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig megis steroidau anabolig a bensodiasepinau
- Sylweddau anghyfreithlon megis heroin, cocên, amffetaminau, LSD, canabis, madarch hud
- Sylweddau anweddol fel tanwyddau erosol, bwten, toddyddion a glud
- Cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg (a elwir hefyd yn hwb cyfreithiol (legal highs))
- Steroidau
- Diodydd egni

O dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, mae'r canlynol yn droseddau:

- Meddu ar controlled drug yn anghyfreithlon
- Meddiant o gyffur rheoledig gyda'r bwriad o'i gyflenwi
- Cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffur rheoledig (hyd yn oed pan na chodir tâl am y cyffur)
- Caniatáu adeilad rydych yn byw ynddo neu'n ei reoli i gael ei ddefnyddio yn anghyfreithlon at y diben o gynhyrchu neu gyflenwi cyffuriau rheoledig

## 4. Eithriadau'r polisi

Er nad oes unrhyw le i sylweddau yn ein hysgol, mae achosion lle efallai gallai rhai sylweddau fod yn ein hysgol yn gyfreithlon:

- **Meddyginiaethau:** Dim ond gyda llythyr oddi wrth y rhiant/ gofalwr i'n ysgol ac ar gyfer defnydd ei fab/ferch yn unig y caiff meddyginiaethau ar bresgripsiwn a dros y cownter eu caniatáu. Mae gennym *bolisi gweinyddu meddyginiaethau*. Os bydd dysgwyr yn cyflenwi cyffuriau presgripsiwn i eraill yn yr ysgol, maent yn gweithredu'n anghyfreithlon, ac felly bydd y polisi hwn yn berthnasol.
- **Sylweddau anweddol:** Rheiny a ddefnyddir gan adrannau penodol yn ein hysgol at ddibenion addysgu.
- **Alcohol:** i'n helpu i ddarparu negeseuon cyson ar gyfer ein pobl ifanc, ni fyddwn yn caniatáu alcohol ar safle'r ysgol, hyd yn oed ar gyfer digwyddiadau ysgol, fel nosweithiau wedi'u trefnu gan y Gymdeithas Rien, neu wobrau raffl mewn ffair haf. Pryd bynnag rydym yn cynnal digwyddiadau codi arian, byddwn yn gofyn i roddion beidio â chynnwys alcohol. Rydym yn ymwybodol, os ydym yn cael alcohol ar safle'r ysgol y gallwn fod yn ddarostyngedig i ofynion trwyddedu a byddwn yn cysylltu ag adran drwyddedu'r Sir er mwyn penderfynu a oes angen trwydded.

## 5. Rhesymeg

Mae camddefnyddio sylweddau sy'n cynnwys tybaco, e-sigarêts, alcohol a chyffuriau cyfreithlon/ anghyfreithlon yn peri pryder iechyd cyhoeddus sylweddol yng Nghymru mewn perthynas â chanlyniadau iechyd a gellir cysylltu'r olaf ag ymddygiad troseddol. Rydym yn cydnabod gall rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau o ansawdd da yn seiliedig ar sgiliau, sy'n briodol i oedran, helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a chall am sylweddau a ddefnyddir a/ neu y camddefnyddir yn y gymdeithas. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb ar gyfer diogelwch ein cymuned ysgol a phwysigrwydd cael dull cyson ar gyfer ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau. Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Ysgolion Iach ein sir ac yn cydnabod gwerth cymryd ymagwedd ysgol gyfan at y mater hwn, sy'n cynnwys arweinyddiaeth, y cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol, ethos a chysylltiadau cymunedol.

## 6. Datblygiad y polisi

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar polisi model y sir ar gamddefnyddio sylweddau. Cafodd hwn ei greu gan weithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd ar draws y sir. Nod y polisi oedd creu dull safonol o ddelio â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau ar draws yr holl ysgolion.

Ymgynghorwyd â'r partneriaid allweddol canlynol wrth ddatblygu'r polisi.

- Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol / Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Barnardo's (YPSMS)
- Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY)
- Cynllun Ysgolion Iach
- Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg
- Gwasanaeth Nyrsio'r Ysgol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Adnoddau Dynol

Mae angen i chi ysgrifennu yma sut y gwnaethoch rannu'r polisi hwn gyda staff, rhieni/ gofalwyr a disgyblion.

- Staff - Mae pob aelod o staff wedi cael copi o'r polisi ac yn ymwybodol o'r siartliff.
- Dysgwyr - mae cyngor ysgol wedi trafod a chytuno ar fersiwn dysgwyr y polisi ac bydd copi yn mynd i'r cynllunydd
- Llywodraethwyr - cafwyd adborth a chymeradwyaeth mewn cyfarfod ar

## 7. Prif Gyfrifoldebau

Gweithredu polisi a rheoli digwyddiadau neu weithdrefnau disgyblu	EWD
Enw'r cyswllt i'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc (ar gyfer atgyfeiriadau)	RB
Addysg camddefnyddio sylweddau (Cydlynnydd ABCh)	LLJ
Cydlynnydd Diogelu/ Amddiffyn Plant	RB

Er mwyn cydymffurfio â'r polisi hwn, bydd y Pennaeth a'r aelod staff arweiniol ar gyfer sylweddau yn gyfrifol am:

- Oruchwylio llunio ac adolygu'r polisi a sicrhau ei fod yn cael ei ddeall gan y llywodraethwyr, staff, rhieni/ gofalwyr a disgyblion
- Cadw golwg ar adeiladau a thir yr ysgol trwy'r timau ar ddyletswydd sy'n gweithredu hyd eithaf eu
- Cwrdd ag anghenion datblygu proffesiynol staff sy'n cyflwyno rhaglenni
- Sefydlu systemau i oruchwylio a chydlyn digwyddiadau camddefnyddio sylweddau
- Cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau
- Dilyn unrhyw gyngor gan Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) a gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau ein bod yn gweithio i'w polisiau ar gyfer ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau anghyfreithlon a allai godi

Bydd yr aelod staff cyswllt ar gyfer sylweddau yn linc uniongyrchol i'r YPSMS, ac yn gyfrifol am:

- Gydlyn atgyfeiriadau i'r YPSMS.
- Cyfarfod gyda'r aelod staff cyswllt o'r YPSMS yn rheolaidd.

Bydd yr aelod staff arweiniol ar gyfer sylweddau a'r Cydlynnydd ABCh yn gyfrifol am:

- Llunio rhaglen astudio a chysylltu gyda chydweithwyr i sicrhau darpariaeth ar draws yr ysgol
- Mynd i'r afael ag anghenion datblygiad proffesiynol y staff sy'n cyflwyno'r rhaglen

- Cysylltu ag asiantaethau allanol a chydlynu eu cyswllt â'r rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau
- Monitro a gwerthuso'r rhaglen astudio a'r adnoddau a ddefnyddir
- Ymgynghori gyda disgyblion am yr hyn maent angen ddysgu neu yr hoffent ei ddysgu
- Cysylltu ag arweinwyr gwyddoniaeth i sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni

## 8. Lle mae'r polisi'n berthnasol?

Ni fydd camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys tybaco ac alcohol) yn cael ei ganiatáu yn unrhyw ran o adeiladau neu diroedd yr ysgol, cludiant ysgol neu deithiau ysgol. Er enghraifft: ceginau, derbynfa, ystafell staff, cae'r ysgol, maes parcio, gerddi, caeau, tramwyfeydd ac ati.

### 8.1 Ysmygu ac adeiladau a thir yr ysgol

- Ni fydd ysmygu yn cael ei ganiatáu o fewn yr ysgol neu ei thiroedd neu yn yr ardal gyfagos, lle gall mwg effeithio ar bobl eraill neu bortreadu delwedd negyddol o'r Cyngor/Ysgol
- Bydd unrhyw arwydd ysmygu sy'n cydymffurfio â *Rheoliadau Mangreoedd Di-Fwg etc (Cymru) 2007* yn cael ei arddangos mewn lle amlwg wrth neu gerllaw pob mynedfa i adeiladau'r ysgol
- Byddwn yn defnyddio arwyddion eraill o amgylch yr ysgol (e.e. gatiâu'r ysgol, tiroedd) i atgoffa pobl bod ein hysgol yn ddi-fwg

### 8.2 Ysmygu a cherbydau

- Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw gerbyd ysgol nac mewn unrhyw gerbyd masnachol sy'n cludo disgyblion ar deithiau/ ymweliadau ysgol yn unol â *Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007*
- Gofynnir i'n staff i ymatal rhag ysmygu yn eu cerbydau eu hunain, wrth gludo teithwyr ar ran yr ysgol
- Bydd rhieni/ gofalwyr sy'n cludo dysgwyr i ac o ddigwyddiadau ysgol yn cael eu hatgoffa o bolisi'r ysgol a gofynnir iddynt gydymffurfio
- Bydd arwydd dim ysmygu sy'n cydymffurfio â *Rheoliadau Mangreoedd Di-Fwg etc (Cymru) 2007* yn cael ei arddangos yn holl gerbydau'r ysgol mewn lle amlwg ym mhob adran o'r cerbyd, sy'n cael ei gynnwys yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan do, gan gynnwys adran y gyrrwr

## 9. Pryd mae'r polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r gweithdrefnau ac ymarferion y polisi hwn yn berthnasol:

- Ar dir ac eiddo'r ysgol BOB AMSER
- Gweithgareddau allgyrsiol ar ac oddi ar safle'r ysgol
- Cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n cael eu mynychu gan weithwyr yr ysgol neu ddysgwyr fel rhan o'u gwaith a/ neu rieni/ gofalwyr ac ymwelwyr i gyfarfod/ digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft, diwrnod chwaraeon, ffeiriau ysgol, nosweithiau rhieni ac ati
- Ymweliadau addysgol ysgolion gan gynnwys gemau chwaraeon i ffwrdd, darpariaeth oddi ar y safle a phrofiad gwaith
- Teithiau preswyl- mae'r ysgol yn cydnabod manteision addysgiadol pwysig y gall teithiau preswyl eu rhoi i ddysgwyr ac hefyd yn cydnabod bod rhaid i staff wirfoddoli eu hamser eu hun er mwyn i hwn ddigwydd. Yn ystod teithiau preswyl disgwylir i staff ymddwyn yn gyfrifol parthed alcohol heb effeithio ar ddiogelwch neu ansawdd y profiad neu'r dysgwyr sydd dan eu gofal. Dylai bob aelod o staff allu perfformio eu dyletysyddau a chyfrifoldebau yn llawn yn ystod y daith
- Cludiant ysgol
- Bydd y daith i ac o'r ysgol ac ymddygiad yn yr ardal gyfagos i'r ysgol yn fater o farn ar gyfer y pennaeth (gweler *Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion 081/2012*, Llywodraeth Cymru, 2012).

## 10. I bwy mae'r polisi'n berthnasol?

Mae'r polisi'n berthnasol i holl staff yr ysgol - parhaol, dros dro, llawn amser neu ran amser a staff llanw; athrawon peripatetig; staff cefnogi; staff y ffreutur; gofalwyr a glanhawyr; staff gweinyddol; myfyrwyr ar

leoliad; contractwyr; rhieni/gofalwyr; ymwelwyr; asiantaethau allanol; aelodau pwyllgorau fel y llywodraethwyr, cymdeithas rieni, aelodau o'r cyhoedd; gwirfoddolwyr; a'r holl ddysgwyr sy'n defnyddio safle'r ysgol neu ei cherbydau.

## 11. Hyrwyddo'r polisi

- Bydd agweddau o'r polisi hwn yn cael ei gynnwys yn y canlynol:
  - Gwefan yr Ysgol
  - Llawlyfr Staff a ffeil ganolog yn yr ystafell athrawon
  - Gwefan y Llywodraethwr
  - Dyddiaduron Dysgwyr
- Mae fersiwn cyfeillgar i ddisgyblion o'r polisi wedi cael ei gymeradwyo gan ein cyngor ysgol ac mae hwn yn cael ei arddangos yn eu cynllunydd
- Cyfeirir at wybodaeth am y polisi yn ystod gwersi camddefnyddio sylweddau
- Gofynnir i asiantaethau allanol sy'n cefnogi addysg camddefnyddio sylweddau i gadw at y polisi hwn
- Bydd copïau llawn o'r polisi ar gael ar gais

## 12. Darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau

Nod ein haddysg camddefnyddio sylweddau yw grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a chall am sylweddau a ddefnyddir a/ neu a gamddefnyddir yn y gymdeithas. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol a bydd y dysgwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teuluol. Bydd ein rhaglen yn un anfeirniadol na fydd yn stereoteipio na chreu stigma. Ni ddylai credoau ac agweddau personol staff neu asiantaethau allanol ddylanwadu ar ein rhaglenni addysg. Mae'r rhaglen ar gyfer pob grŵp blwyddyn wedi ei amlinellu yn nhabl 1. Mae cynlluniau mwy manwl ar gael yn y cynlluniau gwaith ABCh a gwyddoniaeth. **Gweler tabl 1 isod.**

**Tabl 1: Amlinelliad o Gyflwyno Addysg Camddefnyddio Sylweddau**  
(*Gweler y cynlluniau ABCh a Gwyddoniaeth am fanylion llawn*)

Blwyddyn	Pwnc Cwricwlwm	Nifer y gwersi	Beth sy'n cael ei ddarparu	Adnoddau a ddefnyddir	Asiantaeth Allanol	Beth sy'n cael ei ddarparu	Arall
7	IECHYD:	2  2  1	RISGIAU YSMYGU  RISGIAU ALCOHOL  RISGIAU CYFFURIAU	CLIPIAU RHYNGRWDYD DVD's, CATCHBALL, DEUNYDDIAU GWNEUD POSTERI, GEMAU CARDIAU. LLYFRYNNAU DVD's GEMAU  DVD CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU DEUNYDDIAU 'DON'T TOUCH TELL' GAN PC JOHN	SHCY	CANLYNIADAU TRAIS (SY'N CYNWYS ALCOHOL)	
8	IECHYD	2	RISGIAU CYFFURIAU	CROESEIRIAU BOCS CYFFURIAU 'YOU TUBE' - (CHANGING FACES OF DRUG USE)	SHCY		
9	IECHYD		ADDYSG RHYW & FFITRWYDD PERYGLON CYFFURIAU AC ALCOHOL		BARNADOS		
10	IECHYD	1	RISGIAU CYFFURIAU (LEGAL HIGHS)	CLIPIAU RHYNGRWDYD DVD's (CROSSING THE LINE) GWYBODAETH AM GYFFURIAU NEWYDD CLYBIAU DEUNYDDIAU POSTER BOCS CYFFURIAU	SHCY BARNADOS		
11	IECHYD	1	RISGIAU ALCOHOL (BINGE)	CLIPIAU RHYNGRWDYD DVD's GWYBODAETH AM 'BINGE DRINKING'	SHCY		
12 & 13	IECHYD		RISGIAU ALCOHOL	DVD PECYN GWYBODAETH	SHCY		
	IECHYD		RISGIAU CYFFURIAU	BOCS CYFFURIAU	SHCY		
Gweithgareddau eraill							

#### Enghreifftiau:

Gwasanaeth Diwrnod Dim Ysmygu ar gyfer yr ysgol gyfan & Stodin wybodaeth diwrnod dim ysmygu

Gwersi addysg iechyd gan Mrs Sian Edwards - Nyrs Ysgol

Gweithgareddau "Buddies" - Bydi's iechyd.

Gwasanaeth diod ynni ar gyfer yr ysgol gyfan bob blwyddyn

Gweithdai Addysg Iechyd ar gyfer cwricwlwm sgiliau/wythnos gweithgareddau (Heddlu/Iechyd/Asiantaethau Allanol)

SHCY & Asiantaeth Arall - Deadly Mates Bl.12

Barnados - Gweithdai cyffuriau a cefnogaeth i ddisgyblion unigol (Bl.10 a BL9)

Cylchdro y cydlynnydd addysg iechyd o fewn y gwersi tiwtorial CA4 & CA5.

Cwmselydd yr ysgol - cefnogaeth un i un neu ymyrraeth grwp/dosbarth.

### 12.1 Adnoddau a chynnwys asiantaethau/ mentrau allanol

O bryd i'w gilydd byddwn yn gweithio gyda mentrau priodol i gyfrannu at agweddau penodol ar y rhaglen. Byddant yn cael eu gofyn iddynt weithio o fewn paramedrau'r polisi hwn ac ategu at ein darpariaeth o'r cwricwlwm.

### 12.2 Datblygiad proffesiynol parhaus

- Bydd staff yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau priodol
- Bydd staff yn eistedd i mewn ar sesiynau a ddarperir gan asiantaethau allanol
- Bydd arfer da yn cael ei rannu drwy Gyfarfodydd Rhwydwaith ABCh a thrafodaethau mewn cyfarfodydd staff

### 12.3 Addysgu rhieni

- Byddwn yn rhoi gwybod i rieni/ gofalwyr pan fo asiantaethau allanol yn rhan o ddarparu sesiynau.
- Byddwn yn cynnal digwyddiadau addysg i rieni/ gofalwyr yn ôl yr angen (er enghraifft, o ganlyniad i ddigwyddiadau neu adolygu polisi)

## 13. Rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

### 13.1 Mathau o ddigwyddiadau

Gall pethau godi'n annisgwyl felly mae gennym siartlif manwl ar waith i gefnogi staff i gymryd camau priodol. Gall digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau ymwneud â dysgwyr, aelodau staff, rhieni/ gofalwyr neu oedolion eraill. Gallai'r math o ddigwyddiadau gynnwys: darganfod cyffuriau neu gyfarpar cyffuriau ar y safle/ tiroedd; amheuaeth, sion neu honiad am weithgareddau unigolion; datgeliad am gamddefnyddio sylweddau ar y safle/ gweithgaredd ysgol; defnydd neu arwyddion a symptomau camddefnyddio sylweddau; gwerthu neu ddelio sylweddau neu feddiant o sylweddau. Bydd yr holl achosion yn cael eu trin o ddifrif a'u hadrodd i'r pennaeth. Mewn penderfyniadau am y camau gweithredu priodol i'w cymryd, lles a diogelwch y dysgwyr a'r gymuned ysgol gyfan fydd y flaenoriaeth gyntaf. Bydd bydd unrhyw un yn ymddangos yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, bydd trefnau cymorth cyntaf yn cael eu dilyn. Os oes amheuaeth bod dysgwyr wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, bydd gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn. Lle datgelir neu yr amheuir gweithgaredd troseddol, byddwn yn riportio'r mater i'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion. Am ganllawiau manylach gweler atodiad 1.

### 13.2 Cynnwys yr heddlu.

Ar gyfer yr HOLL achlysuron o gamddefnyddio sylweddau, diogelwch y dysgwyr a chymuned yr ysgol gyfan yw'r flaenoriaeth.

Lle bod angen gysylltu â'r heddlu byddwn yn cynnwys y SCHY ac nid yr heddlu brys ar gyfer digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau.

Os yw'r sefyllfa yn argyfwng neu nad yw'r SCHY ar gael yna bydd galwad 999 yn cael ei wneud er mwyn cael ymateb cyflym. Er enghraifft, os yw unrhyw un yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylwedd (e.e. gorddos, camddefnyddio hydoddydd), byddwn yn dilyn gweithdrefnau cymorth cyntaf a galw 999 pe bo angen. NEU er enghraifft os yw rhiant/gofalwr ar fin gyrru eu plentyn yn ôl i'r cartref a thybiwn nad ydynt yn addas i wneud hynny oherwydd meddwdod neu os yw digwyddiad yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon.



I gael manylion pellach ynglŷn â rhan y SCHY / Heddlu gweler Polisi Trosedd Ysgol - Protocol ar gyfer yr Heddlu sy'n cefnogi ysgolion gyda digwyddiadau o Drosedd ac Anrhefn. Dogfen gyfeiriol ar gyfer Staff Ysgol (2012).

### **13.3 Gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiad sy'n ymwneud â disgyblion (atodiad 1)**

Bydd staff sy'n dod yn ymwybodol o anawsterau a/ neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dysgwyr a sylweddau yn hysbysu'r pennaeth neu'r person arweiniol ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar fath a maint y risg, gyda rhai sefyllfaoedd sy'n gofyn am weithredu ar unwaith ac eraill angen amser ar gyfer asesu gwybodaeth, cael cyngor a chynnwys asiantaethau eraill. Mae diogelwch a diogeled y dysgwyr yn flaenoriaeth ym mhob achos. Bydd rhieni/ gofalwyr yn cael gwybod oni bai bo pryderon diogelu. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a sut i'w rheoli yn cael eu hamlinellu yn atodiad 1.

#### **13.3.1 Gweithdrefn ar gyfer delio gyda disgybl ar ôl digwyddiad**

Mae cyffuriau ac alcohol yn effeithio ar ymddygiad. Ni fydd y ffaith bod cyffuriau neu alcohol wedi achosi disgybl i ymddwyn yn amhriodol yn cael ei weld fel ffactor lliniarol - bydd yr ymddygiad yn cael ei drin gan ddefnyddio ein Polisi Ymddygiad.

Nid ein rôl ni yw darparu gofal meddygol i'r rhai o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Os yw dysgwr mewn perygl oherwydd nam ar eu cyflwr meddyliol, byddwn yn cysylltu â'r rhieni/ gofalwyr a gofyn iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu plentyn. Pe bai hynny'n methu, gofynnir i gyswllt brys priodol gynorthwyo. Fel arall, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion os yn briodol yn cael eu galw i gael cyngor.

Ni fydd dysgwr yn cael cerdded, beicio neu ddal y bws adref os oes pryder am nam meddyliol o ganlyniad i unrhyw sylwedd. Os oes angen, bydd grym rhesymol (gweler y polisi Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol) gael ei ddefnyddio.

Ein prif nod yw amddiffyn diogelwch a lles y dysgwr ac atal digwyddiadau pellach. Mae gennym set o sancsiynau a lefelau o gefnogaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau camddefnyddio sylweddau a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhieni/ gofalwyr, cydweithwyr yn yr ysgol ac asiantaethau partner megis y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc a'r Heddlu i ddarparu cefnogaeth briodol. Gweler Atodiad 1

### **13.4 Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â staff (atodiad 1)**

Ein prif flaenoriaeth yw lles y dysgwyr yn ein gofal. Mae diogelu ein dysgwyr yn bwysicach i'w wneud na dilyn gweithdrefnau disgyblu staff. Mae digwyddiadau camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys cyffuriau, tybaco ac alcohol) sy'n ymwneud â staff yn destun i bolisi Sir Conwy a chytunwyd ar gyfer digwyddiadau staff sy'n ymwneud â chyffuriau, alcohol a thybaco. Bydd yr holl staff yn ymwybodol o'r polisiau hyn.

### **13.5 Gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag oedolion (nid staff) (atodiad 1)**

Lle'r amheuir bod rhiant/ gofalwr neu ymwelydd â'r ysgol dan ddylanwad sylwedd gofynnir iddynt adael ar unwaith. Bydd eu diogelwch yn cael ei sicrhau, gyda goruchwyliaeth os bydd angen. Mewn achosion lle rydym yn amau camddefnyddio sylweddau (meddiant, defnydd, cyflenwi) byddwn yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a lle mae amheuaeth o sylweddau anghyfreithlon, bydd y Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ion neu'r heddlu yn cael eu hysbysu. Os yw oedolyn yn ysmegu ar safle'r ysgol gofynnir iddynt ddiffodd y sigarét neu adael y safle.

Lle'r amheuir bod rhieni/ gofalwyr yn cyrraedd yr ysgol i gasglu dysgwyr yn feddw neu'n ymddangos i fod o dan ddylanwad sylwedd, ni fydd y dysgwr yn cael ei ryddhau i'w gofal (yn enwedig os ydynt yn gyrru). Byddwn yn ceisio trefnu i gyswllt arall sydd wedi'i enwi i gasglu'r disgybl. Fodd bynnag, os yw'r rhiant/ gofalwr yn mynd yn ymosodol byddwn yn ffonio 999. Mae hyn yn unol â'n Polisi Diogelu.

Mae camau sydd angen eu cyfeirio i sefydliadau eraill yn cynnwys:

- Ymchwilio i weithgarwch troseddol, gan gynnwys chwilio pobl neu eiddo personol (yr heddlu)
- Ar wahân i gymorth cyntaf uniongyrchol, unrhyw argyfwng iechyd neu feddygol y dylid eu trin gan bersonél meddygol priodol

- Mae asesu a darparu cymorth a gwasanaethau i blant a theuluoedd diamddiffyn neu gythryblus yn faterion ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc
- Mae rhaglenni cwnsela a thriniaeth cyffuriau angen staff hyfforddedig, sydd fel arfer ar gael drwy wasanaethau cymdeithasol, iechyd neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r YPSMS

### 13.6 Gweithdrefn ar gyfer canfod paraffernalia cyffuriau ar dir yr ysgol (atodiad 1)

Os deuir o hyd i nodwyddau, chwistrellau neu baraffernalia cyffuriau ar safle ein hysgol:

1. Bydd y person arweiniol yn cael ei hysbysu
2. Bydd y paraffernalia yn cael ei roi mewn blwch pethau miniog, gan ddefnyddio menig a gefel
3. Bydd y Gwasanaethau Amgylcheddol yn cael eu cysylltu i wagio'r blwch
4. Byddwn yn hysbysu'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ion
5. Bydd y ffurflen adrodd am ddigwyddiadau yn cael ei llenwi
6. Addysg diogelwch priodol gyda dysgwyr

### 13.7 Gweithdrefn ar gyfer canfod sylweddau ar dir yr ysgol neu atafaelu sylweddau

Pan ddeuir o hyd i sylwedd amheus neu y caiff ei adennill o fewn ffiniau ysgol NEU os yw aelod o staff yn dymuno atafaelu sylwedd, byddwn yn dilyn Polisi Trechu Troseddau mewn Ysgolion:

1. Atafaelwch y sylwedd a'i roi mewn bag.
2. Ni fydd staff yn ceisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd anhysbys dan unrhyw amgylchiadau.
3. Ar gyfer cyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon a amheuir byddwn yn cysylltu â'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ion ar gyfer cael gwared arno a chael cyngor am sut i weithredu yn y dyfodol. Os na fydd y Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ion ar gael - cysylltir â'r orsaf heddlu leol cyn gynted ag y bo modd. Eglurwch y sefyllfa a gofynnwch am rif digwyddiad - bydd hyn yn cael ei wneud yn ddi-oed.
4. Byddwn yn sicrhau bod tyst i'r atafaelu gydag aelod arall o'r staff.
  - Alcohol - gellir ei dywallt ac yna taflu'r cynhwysydd (rhoi gwybod i riant / gofalwr, efallai y byddant yn dymuno casglu'r eitem).
  - Tybaco - gellir ei ddinistrio a'i daflu (rhoi gwybod i riant / gofalwr, efallai y byddant yn dymuno casglu'r eitem).
  - E-sigarennau- gellir eu dinistrio a'u taflu (rhoi gwybod i riant / gofalwr, efallai y byddant yn dymuno casglu'r eitem).
  - Cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg, sylweddau anwedol - byddwn yn storio'r sylwedd mewn lleoliad addas ym mhresenoldeb tyst tra'n aros i'r heddlu gyrraedd.
5. Bydd y ffurflen adrodd am ddigwyddiadau yn cael ei llenwi, gan egluro sut cafwyd gwared ar y sylwedd, a bydd yn cynnwys llofnodion tystion, gan gynnwys llofnod yr heddlu os oedd sylwedd anghyfreithlon wedi'i ganfod.

### 13.8 Achosion o gamddefnyddio sylweddau sy'n digwydd tu allan i oriau ysgol/ yn y gymuned leol

Does gan yr ysgol ddim rôl i'w chwarae wrth ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â sylweddau y tu allan i oriau ac adeiladau'r ysgol heblaw am:

- Ar deithiau ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un disgwyliadau a'r gweithdrefnau yn cael eu defnyddio cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol
- Drwy basio gwybodaeth i asiantaethau perthnasol pan fydd diogelwch neu les y dysgwr yn cael ei fygwth
- I gynorthwyo'r heddlu i atal defnyddio'r tir o amgylch yr ysgol ar gyfer masnachu cyffuriau
- Pan fo oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol) yn amharu ar ddiogelwch dysgwr
- Os bydd digwyddiadau'n codi yn y gymuned leol byddwn yn ymgymryd â gwaith ychwanegol gydag asiantaethau allanol priodol i atgyfnerthu negeseuon allwedol trwy ABCh a gwasanaethau'r ysgol

### 13.9 Chwilio

- Ni chaiff staff yr Ysgol chwilio dysgwyr neu oedolion, eu dillad neu eu heiddo personol heb ganiatâd hyd yn oed os ydynt yn amau bod y person yn meddu ar sylwedd neu eitem waharddedig

- Gall staff chwilio eiddo'r ysgol, e.e. desgiau, loceri, er y dylid cael caniatâd ymlaen llaw. Gellir cynnal chwiliadau hyd yn oed os gwrthodir caniatâd
- Gall staff yr ysgol ofyn i rywun i droi allan ei bocedi, wagio ei fag, ac ati. Os bydd ymdrechion i berswadio rhywun yr amheuir o gamddefnyddio sylweddau i gydymffurfio â'r cais hwn yn methu, yna gall yr ysgol ei wneud un, neu'r ddau, o'r canlynol: yn achos dysgwr, cysylltwch â'r rhieni/ gofalwyr a gofynnwch iddynt ddod i mewn i'r ysgol a chwilio'r disgybl a'i eiddo; NEU symudwch ymlaen yn fwy ffurfiol a chysylltu â'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion
- Ni all staff gadw dysgwyr neu oedolion heb eu caniatâd at ddiben chwiliad
- Bydd angen i ysgolion gydbwyso'r tebygrwydd bod trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn y risg o dresmasu ar breifatrwydd unigolyn heb achos cyfiawn.

### 13.9.1 Cysylltu â rhieni/ gofalwyr

Gwneir ymdrech resymol i gysylltu â rhieni/ gofalwyr i roi gwybod iddynt y bydd chwiliad yn cael ei gynnal. Nid oes gan rieni/ gofalwyr yr hawl i atal chwiliad o'r fath nac i'w ohirio'n ormodol. Pwerau cyfyngedig sydd gan yr heddlu i gadw unigolyn cyn eu chwilio. Os gellir cysylltu â rhieni/ gofalwyr a'u bod yn gallu mynychu safle'r ysgol, byddant yn cael eu hebrwng i'r ystafell lle y bydd y chwilio'n digwydd. Bydd rhieni/ gofalwyr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â sylweddau oni bai:

- Bod pryderon diogelu
- Byddai'n ymyrryd ag ymchwiliad ysgol
- Byddai'n ymyrryd ag ymchwiliad gan yr heddlu
- Gallai arwain at fwy o niwed i'r dysgwr am reswm arall.

Byddwn yn cysylltu â rhieni/ gofalwyr fel arfer yn uniongyrchol dros y ffôn mewn achos profedig o ddefnyddio sylweddau. Os oes amheuaeth, ond nid prawf, bydd protocol cytunedig yr heddlu'n cael ei weithredu.

### 13.9.2 Cysylltu â'r heddlu

Pan fo gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r heddlu, gofynnir am chwiliad a phwysleisir lle bynnag y bo'n bosibl mai'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (neu swyddogion eraill fel rhai mewn dillad plaen neu swyddogion amddiffyn teulu) sydd eu hangen. Dim ond fel dewis olaf, neu os oes angen cynnal chwiliad yn gyflym, y bydd swyddogion mewn lifrai yn mynychu'r ysgol.

Ar gyrraedd, bydd swyddogion yn cael eu briffio ynglŷn â natur yr honiad a hyder yn y ffynhonnell wybodaeth. Byddant yn cael eu hebrwng i'r ystafell lle bydd y chwiliad yn digwydd, os yw'r disgybl eisoes yn cael ei gadw yno.

Pan nad yw'r rhieni/ gofalwyr yn bresennol, bydd aelod o staff yr ysgol (staff dysgu neu nad ydynt yn dysgu) yn bresennol trwy gydol y chwiliad (bydd angen i'r ysgol gwblhau asesiad risg). Er y caniateir rhai cwestiynau yn gysylltiedig â'r chwiliad, ni chaniateir unrhyw gyfweiliad ffurfiol oni bai bod y rhieni/ gofalwyr yn bresennol. Mae'n annhebygol iawn y bydd cyfweiliad o'r fath yn digwydd ar dir yr ysgol.

Dylai staff fod yn wyladwrus o unrhyw ymgais gan y dysgwr i ddianc er mwyn cael gwared ar unrhyw gyffuriau, neu geisio pasio'r cyffuriau i unrhyw ddisgybl arall naill ai yn y dosbarth neu ar y ffordd i'r chwiliad.

## 13.10 Cyfweld ac ymchwiliadau

Bydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal ar ôl y digwyddiad; ac os yn briodol, bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal i sefydlu'r ffeithiau, lefel cyfranogiad ac os oedd pobl eraill yn gysylltiedig. Efallai y bydd angen i ni hefyd drefnu cyfweiliadau gyda staff, dysgwyr eraill i sefydlu'r ffeithiau ymhellach a chael cadarnhad. Bydd rhieni/ gofalwyr yn cael mynediad at eu plentyn gydag aelod o staff yn bresennol bob amser. Gall y Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion fod yn rhan o ymchwiliadau partneriaeth neu'r heddlu pan fydd sylweddau anghyfreithlon yn cael eu hamau. Os yw'n angenrheidiol cynnwys yr heddlu, gwneir pob ymdrech i gael rhiant/ gofalwr yn bresennol.

## 13.11 Cyswllt y Cyfryngau

Ni fydd y staff yn riportio digwyddiadau a/ neu faterion yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau i'r wasg a'r cyfryngau lleol. Mae hyn yn torri cyfrinachedd a gallai arwain at gamau disgyblu. Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Wasg y sir a'r Llywodraethwyr yn delio'n bersonol â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r cyfryngau. Bydd yr holl ymholiadau gan y cyfryngau yn cael eu cyfeirio i Swyddfa'r Wasg y sir.

### 13.12 Rhannu gwybodaeth

Os bydd gennym unrhyw wybodaeth mewn perthynas â sylweddau anghyfreithlon neu ffug neu wybodaeth sy'n ymwneud a defnyddio unrhyw sylweddau neu ddelio sylweddau yn y gymuned, yna byddwn yn riportio hyn i'r heddlu, safonau masnach neu'r GCSPI yn unol â hynny.

### 13.13 Cofnodi digwyddiadau (atodiad 2)

Bydd cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer POB digwyddiad camddefnyddio sylweddau a digwyddiadau cysylltiedig gan ddefnyddio atodiad 2. Rhaid cadw cofnodion o'r HOLL gyfweiliadau.

Nid oes dyletswydd cyffredinol yn y gyfraith droseddol i ni fel ysgol i ddatgelu gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau ac eithrio o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, pan fo trosedd wedi ei chyflawni os yw unigolyn yn caniatáu i eiddo gael ei ddefnyddio ar gyfer ysmegu canabis neu opiwm, neu gynhyrchu, cyflenwi, gweinyddu cyffuriau rheoledig, ac nid oes dim yn cael ei wneud i'w atal.

## 14. Cyfrinachedd a diogelu

Efallai y bydd angen defnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant lleol os yw diogelwch neu les y ddysgwyr (neu ddysgwyr arall) dan fygythiad. **Rhoddir dyletswydd ar y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gysylltiedig i gyfnewid gwybodaeth er mwyn diogelu "plentyn" gan gadw at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.** Ni all athrawon a gweithwyr proffesiynol gynnig cyfrinachedd diamod i ddysgwyr mewn addysg neu ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau a dylai hyn gael ei wneud yn glir o'r cychwyn bob amser.

Os yw dysgwr yn datgelu gwybodaeth sy'n sensitif, nad yw'n hysbys yn gyffredinol ac mae'r dysgwr yn gofyn am beidio ei throsglwyddo, bydd yn cael ei drafod gyda'r pennaeth/ cydlynnydd diogelu. Bydd y cais yn cael ei arhwyddo, fodd bynnag, bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri yn erbyn dymuniadau'r disgybl pan fo:

- mater diogelu
- 'bywyd rhywun mewn perygl neu fo dysgwr mewn perygl o achosi niwed difrifol i eraill.'
- troseddau yn cael eu datgelu

Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i'r dysgwr yn gyntaf, gan egluro pam fod angen i hyn ddigwydd a sicrhau cytundeb y dysgwr o ran y ffordd y mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio unrhyw wybodaeth sensitif.

O ran darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau

- Os yw athro yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi sy'n awgrymu bod dysgwr mewn perygl o niwed difrifol neu achosi niwed difrifol i eraill bydd yn hysbysu'r pennaeth/ cydlynnydd diogelu
- Bydd y defnydd o reolau sylfaenol y cytunwyd arnynt mewn dosbarthiadau yn creu ffiniau clir, yn annog dysgwyr rhag rhannu gwybodaeth bersonol mewn lleoliad dosbarth ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo fod ganddo barch ac yn ddiogel
- Bydd athrawon yn annog dysgwyr i roi eu cwestiynau mewn blwch cwestiynau a fydd yn rhoi 'amser meddwl' i staff cyn ateb
- Os oes cwestiynau o natur bersonol neu gwestiynau penodol am e.e. cyffuriau anghyfreithlon, bydd dysgwyr yn cael eu hannog i siarad â'u rhieni/ gofalywyr a/ neu asiantaethau cymorth priodol
- Os yw athro yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi sy'n awgrymu fod gam ddysgwr wybodaeth am weithgareddau sy'n torri'r gyfraith, byddant yn cysylltu â'r pennaeth a'r Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion yn y lle cyntaf

## 15. Trefn Gwyno

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am achosion neu addysg camddefnyddio sylweddau i'r pennaeth.

## **16. Monitro a Gwerthuso**

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd neu'n fwy aml os oes angen.
- Yr arweinydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau, y cydlynnydd ABCh a'r cydlynnydd gwyddoniaeth sy'n gyfrifol am adolygu addysg camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rhaglenni yn ymateb i anghenion y ddysgwyr a bod amgylchedd dysgu cefnogol yn cael ei gynnal ar gyfer pawb.
- Y pennaeth, yr arweinydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau a'r corff llywodraethol sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau monitro (e.e. nifer, natur, canlyniadau digwyddiadau a faint o atgyfeiriadau a wneir i asiantaethau allanol) ac adolygu gweithdrefnau rheoli digwyddiad.
- Bydd y pennaeth a'r arweinydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn sicrhau bod y canfyddiadau gan y staff, gwerthusiadau rhieni/ gofalwyr a disgyblion yn cyfrannu at broses hunan-arfarnu ein hysgol ac i broses adolygu'r polisi.

**Atodiad 1 - Siart Llif Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau**

**Atodiad 2 - Ffurflen Riportio Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau**

**Atodiad 3 - Ffurflen Atgyfeirio Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc a Phecyn Sgrinio**

# **Atodiad 1**

## **Digwyddiad Camddefnyddio Sylweddau**

### **Siartiau Llif**

# **Atodiad 2**

**Digwyddiad  
Camddefnyddio  
Sylweddau**

**Ffurflen Gofnodi**

**YSGOL DYFFRYN CONWY**

**Cofnod o Ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Chamdefnyddio Sylweddau (gan gynnwys ysmegu)  
ATODWCH i SIMS os yn bosibl ac i gofnod y disgybl**

Y rhai sy'n gysylltiedig

Enw'r disgybl(ion)	Dosbarth (iadau)	Troseddwr olynol Y / N
Enwau Tystion	Asiantaethau/ staff cysylltiedig eraill	

**Math o ddigwyddiad**

✓

Ysmegu ar dir yr ysgol	
Cyffuriau, paraffernalia cyffuriau neu sbwriel cyffuriau ar neu gerllaw safle'r ysgol	
Disgyblion neu rieni/ gofawyr yn meddu ar sylweddau ar dir yr ysgol, trip neu gludiant	
Disgyblion neu rieni/ gofawyr yn camdefnyddio sylweddau ar dir yr ysgol, trip neu gludiant	
Disgyblion neu rieni/ gofawyr yn gwerthu neu gyflenwi sylweddau ar dir yr ysgol, trip neu gludiant	
Disgybl yn datgelu eu bod yn camdefnyddio sylweddau tu mewn a thu allan i weithgareddau'r ysgol	
Amheuaeth o gamdefnyddio sylweddau tu mewn a thu allan i weithgareddau'r ysgol	
Symptomau o gamdefnyddio sylweddau	
Honiad o gamdefnyddio sylweddau tu mewn a thu allan i weithgareddau'r ysgol	
Rhiant/ gofalwr dan ddylanwad wrth gasglu disgybl	
Rhiant/ gofalwr yn mynegi pryderon am ddisgybl	
Disgybl yn datgelu bod eu rhiant/ gofalwr yn camdefnyddio sylweddau	

**Disgrifiad o'r Digwyddiad:**

Dyddiad	Amser	Lleoliad	Sylwedd(au) dan sylw
Disgrifiad o'r digwyddiad gan gynnwys disgrifiad o unrhyw symptomau, yr hyn a welwyd neu a ddywedwyd a'r camau a gymerwyd ....			
A roddwyd triniaeth cymorth cyntaf Do Na	Gan bwy	Pa driniaeth a roddwyd	
A alwyd ambiwlans Do Na	Gan bwy	Amser	



A wnaed unrhyw chwiliadau Do Na	Gan bwy	Disgrifiad	Enwau Tystion
A atafaelwyd sylweddau Do Na	Gan bwy	Lle cawsant eu storio	Enwau / Llofnodion Tystion
A gafwyd gwared ar sylweddau <input type="checkbox"/> NA <input type="checkbox"/> Toiled / sinc <input type="checkbox"/> Casglwyd gan riant / gofalwr <input type="checkbox"/> Casglwyd gan yr heddlu	Gan bwy	Dyddiad / Amser	Enwau / Llofnodion Tystion  Llofnod yr Heddlu
Ydy'r rhieni / gofalwyr wedi cael gwybod Do Na	Gan bwy	Llofnod Rhiant/Gofalwr:	Dyddiad / Amser
Pwy arall sydd wedi'i hysbysu am y digwyddiad	Yr Heddlu Y Pennaeth, Athro Dosbarth	<input type="checkbox"/> Arweinydd Sylweddau'r Ysgol Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Arall _____	
Tynnu disgybl o'r ysgol Do Na	Casglwyd gan	Amser	

**Llenwyd y ffurflen gan:**

Enw	Llofnod	Dyddiad
-----	---------	---------

## YSGOL DYFFRYN CONWY

### Cofnod o Gamau Gweithredu Dilynol i Ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Chamdefnyddio Sylweddau

#### Sanctsiwn a roddwyd i'r disgybl(ion)

Sanctsiwn	Dyddiad/ amser dechrau	Dyddiad / amser gorffen
Llythyr wedi'i anfon at rieni / gofalwyr Do Na	Dyddiad	Gan bwy
Sanctsiynau pellach yn dilyn ymchwiliadau/ cyfarfodydd ail-integreiddio		

#### Digwyddiadau Ysmygu yn unig

Taflenni iechyd ysmygu a gwybodaeth lafar wedi'i roi i'r disgybl Do Na  Gwybodaeth am gymorth i roi'r gorau wedi'i roi i'r disgybl Do Na	Gan bwy	Llofnod Disgybl
--	---------	-----------------

#### Cyfarfod Ail-integreiddio (Amh ar gyfer ysmygu)

Llythyr cyfarfod ail-integreiddio wedi'i anfon? Do Na	Gan bwy	Dyddiad Anfon	
Pwy oedd yn bresennol (rhowch enw a phwy ydyn nhw)			
Dyddiad y cyfarfod	Amser y cyfarfod	Lleoliad	
Pwyntiau trafod allweddol o'r cyfarfod a champau gweithredu / cymorth y cytunwyd arnynt			
Camau Gweithredu:	Pwy	Manylion	
Taflenni a gwybodaeth lafar ar sylweddau wedi'u rhoi			
Gwybodaeth am y gwasanaeth cymorth wedi'i roi			
Cynllun Cefnogaeth fugeiliol			
Cyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill (✓)			
Gwasanaeth Chamdefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc			
Atgyfeiriad PAD			
Gwasanaethau Cymdeithasol			
Arall _____			
A drefnwyd sesiwn gefnogi gydag aelod o staff ar gyfer y diwrnod dychwelyd i'r ysgol?  Do Na	Dyddiad ac amser a gynlluniwyd	Gyda phwy?	Wnaeth hyn ddigwydd? Do Na Os gwrthododd y disgybl, rhaid iddynt lofnodi yma _____

A gynlluniwyd cyfarfod dilynol? Do Na	Dyddiad ac amser a gynlluniwyd	Gyda phwy?	Wnaeth hyn ddigwydd?

**Datganiad Disgyblion a Rhiant/ Gofalwr**

Rydym yn cytuno bod hwn yn gofnod cywir o'r drafodaeth a gafwyd ac yn cadarnhau ein bod wedi derbyn copi o'r ffurflen hon

Enw'r disgybl	Llofnod	Dyddiad
Enw Rhiant/ Gofalwr	Llofnod	Dyddiad
Enw Staff yr Ysgol	Llofnod	Dyddiad
Arall	Llofnod	Dyddiad

# **Atodiad 3**

**Ffurflen atgyfeirio  
i'r GCSPi**

**Pecyn Sgrinio**

Credwch  
mewn plant  
Believe in  
children

 Barnardo's  
Cymru

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau  
Plant a Phobl Ifanc Conwy a Sir Ddinbych (GCSPPI)  
Cyfle Barnardos Cymru, Panton House, Dinbych, LL16 3TL.  
Rhif Ffôn 01745 817216  
E-bost: [cyfle@barnardos.org.uk](mailto:cyfle@barnardos.org.uk)

## Gwasanaethau Cyfle Barnardo's Cymru

### FFURFLEN ATGYFEIRIO

Ticiwch pa rai o'r prosiectau canlynol yr hoffech atgyfeirio iddynt

---

#### Gwasanaeth Atal Cyffredinol (Haen 1)

Gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grwpiau eraill, mudiadau, clybiau, cymdeithasau a lleoliadau lle gall pobl ifanc gyfarfod.

I ddosbarthu a gweithredu rhaglenni addysg ac atal camddefnyddio sylweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon a gweithwyr ieuenctid yn y gymuned.

---

#### Gwasanaeth Atal, Ymyrraeth Gynnar a Thriniaeth Strwythuredig

Ymyrraeth gynnar yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel. Gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau, lleihau troseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn i adrannau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i ddefnyddio sylweddau.

Triniaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc gan eu galluogi i leihau eu defnydd o gyffuriau / alcohol neu ddod yn rhydd o gyffuriau / alcohol. Rydym hefyd yn gweithio i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â'r defnydd o sylweddau gan blant a phobl ifanc

---

#### Gwasanaeth Niwed Cudd

Gweithio i leihau'r niwed a achosir i blant a phobl ifanc gan rieni neu ofalwyr sy'n defnyddio/ camddefnyddio gan alluogi plant a phobl ifanc defnyddwyr sylweddau i fynegi eu meddyliau a'u teimladau am eu hamgylchiadau yn ddiogel, yn ogystal â chynyddu eu hymwybyddiaeth o sylweddau a defnyddio sylweddau.

---

#### Prosiect Families Mattern 2

Prosiect ymyrraeth gynnar yn gweithio gyda rhieni / gofalwyr y mae eu defnydd/camddefnydd o sylweddau yn effeithio ac amharu ar weithrediad y teulu a lle mae iechyd a datblygiad plant a phobl ifanc yn cael ei effeithio.

# Ffurflen Atgyfeirio

## MANYLION Y SAWL SY'N CYFEIRIO

Atgyfeiriwyd gan Llofnod.....

Asiantaeth ..... Teitl Swydd (neu berthynas i'r cleient.) .....

Rhif Ffôn ..... E-bost.....

Dyddiad atgyfeirio: .....

A ddylid gwneud apwyntiadau'n gennych chi fel yr Asiantaeth atgyfeirio Ie / Na (rhowch gylch)

## MANYLION ATGYFEIRIO

Enw llawn y person(au) sy'n cael eu hatgyfeirio (LLYTHRENNAU BRAS): .....

Dyddiad Geni: ..... Rhyw (rhowch gylch): Gwryw Benyw

Cyfeiriad: .....

.....

Cod Post:..... Rhif Ffôn / Symudol .....

Enw a Chyfeiriad Meddyg Teulu (os yn hysbys).....

.....

...

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â'R PERSON SY'N CAEL EU HATGYFEIRIO

Manylion am unrhyw faterion iechyd corfforol neu feddyliol hysbys .....

Manylion cyffuriau / alcohol sy'n cael eu defnyddio ..... Oed ar ddechrau defnyddio .....

Faint, pa mor aml, sut y caiff ei gymryd?

.....

Rhowch fanylion penodol o'r rheswm dros atgyfeiri.....

.....

.....

.....

Beth mae'r person sy'n cael ei atgyfeirio yn teimlo am eu defnydd/ camddefnydd sylweddau? (Ydyn nhw am wneud newidiadau)

.....

.....

Aelodau eraill o'r aelwyd:	DG	Perthynas

A oes unrhyw asiantaethau / gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r person(au) sy'n cael eu hatgyfeirio? Os felly, rhowch fanylion.

.....

.....

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw faterion, cyfredol neu hanesyddol, a allai beri risg i staff wrth weithio ar ben eu hunain neu mewn sefyllfaoedd grŵp? (e.e. trais domestig, materion iechyd meddwl ac ati)

.....

.....

<b>RISGIAU ERAILL Y CLEIENT (IAID)</b> (Ticiwch y blwch perthnasol)	DIM	ISEL	CANOLIG	UCHEL	DDIM YN HYSBYS
Hunan-niwed / Hunanladdiad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwylltineb neu ddifrod i eiddo	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hanes o droseddu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Risg i'r cleient oddi wrth aelod arall o'r aelwyd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ymweliadau cartref – risg i'r gweithiwr oddi wrth gleient	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw faterion amddiffyn plant (yn y gorffennol neu'r presennol)? Nodwch y manylion isod:

Plant ar gofrestr Amddiffyn Plant	cyfredol	hanes
Plant Mewn Angen	cyfredol	hanes

Manylion.....

Ydi'r person sy'n cael ei atgyfeirio yn ymwybodol o'r atgyfeiriad hwn? (rhowch gylch) Ydi/ Na  
A yw hi'n iawn i'r rhiant/ gwarcheidwad wybod am yr atgyfeiriad hwn? Ydi/ Na

Rwyf i / Rydym yn rhoi caniatâd i'r atgyfeiriad hwn gael ei wneud i Cyfle Barnardos Cymru a rhoi caniatâd i unrhyw wybodaeth ar y ffurflen hon gael ei chadw gan Cyfle Barnardos Cymru. Rwyf i / Rydym ni hefyd yn rhoi caniatâd ar gyfer Cyfle Barnardos Cymru i gysylltu ag asiantaethau eraill i gael gwybodaeth bellach am yr atgyfeiriad hwn.

Llofnod y person sy'n cael ei atgyfeirio..... Dyddiad.....

Llofnod y person sy'n cael ei atgyfeirio..... Dyddiad:.....

Defnydd swyddogol: Dyddiad Dyrannu'r Atgyfeiriad:

Gweithiwr:

Dyddiad Mewnbynwyd ar LL:

**Cam 1 – Pryd y dylech sgrinio am gamddefnyddio sylweddau**

Pan mae unigolyn ifanc yn caisio cyngor/gwybodaeth am gyffuriau ac alcohol.

Yn sgil canfod, neu amheuaeth o ddefnyddio sylweddau.

Pan geir digwyddiad sy'n gysylltiedig â sylwedd.

Pan fydd unigolyn ifanc mewn sefyllfa fragus yn dod i gysylltiad â'ch gwasanaeth.

- Er enghraifft:
- Digartref
  - Yn Derbyn Gofal
  - Gofalwyr Ifanc
  - Troseddwy'r Ifanc
  - Ddim yn Mynychu Ysgol

**Cam 2 – Cyfrinachedd**

Egluro polisi cyfrinachedd y gwasanaeth a ffurflen gyfrinachedd ryngasiantaethol i'w llenwi os oes angen.

**Cam 3 – Pam mae angen gwybodaeth am sylweddau ar yr unigolyn ifanc?**

Nid yw'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau ond hoffai gael gwybodaeth gyffredinol.

Mae'r unigolyn ifanc yn meddwl am ddefnyddio sylweddau.

Mae'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau.

Nid yw'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau, ond mae defnydd rhywun arall o sylweddau'n effeithio arno/arni.

Mae'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau ac mae defnydd rhywun arall o sylweddau'n effeithio arno/arni.

Haen 1 (H1)

Haen 2 (H2)

Ewch i gam 4

Niwed Cudd

Ewch i gam 4

**Cam 4 – Beth yw'r prif sylwedd y mae'r unigolyn ifanc yn ei ddefnyddio?**

Ydy'r sylweddau y mae'r unigolyn ifanc yn eu defnyddio yn cael eu chwistrellu?  
 Na →  
 Ydy →  
 Cyfeiriwch at Haen 3

	Bob wythnos	Bob dydd	Bob mis	O bryd i'w gilydd
Alcohol	H2	H3	H2	H1
Amfetaminau	H2	H3	H2	H2
Bensodiasapinau	← Haen 3 →			
Canabis	← Haen 2 →			
Cocôen	H2	H3	H2	H2
Crac	← Haen 3 →			
Ecstasi	H2	H3	H2	H2
GHB	H2	H3	H2	H2
Heroin/Methadon	← Haen 3 →			
Celamin	H2	H3	H2	H2
LSD/Madarch Hud	H2	H3	H2	H2
Cyffuriau 'Anterth Cyfreithlon'	H2	H3	H2	H2
MCAT/Cathinones	H2	H3	H2	H2
Toddyddion	H2	H3	H2	H2
Steroidau	H2	H3	H2	H2
Tybaco	← Cyfeirio at y Meddyg Teulu →			

**HAEN 1**  
**Addysg/Gwybodaeth**

- Sicrhau bod yr unigolyn ifanc yn cael mynediad at wybodaeth/addysg.
- I gael rhagor o wybodaeth/cyngor, cysylltu â Chydlynwyr Addysg Bersonol, Iechyd, Cymdeithasol a Dinasyddiaeth mewn ysgolion, Gweithwyr Ysgolion CYPSSMS Barnardos, neu Nyrs Ysgol.

Manylion cysylltu:  
 Giselle Moran or Sarah Barnett  
 01745817216

**HAEN 2**  
**Gwaith atal wedi'i dargedu a chefnogaeth i bobl ifanc**

- Cyfeirio at CYPSSMS Barnardos, gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio safonol.
- Os yw'n hysbys i'r Tim Troseddau Ieuencid (TTI), cyfeirio at Weithiwr Camddefnyddio Sylweddau'r TTI.

Manylion cysylltu:  
 Giselle Moran 01745817216

**HAEN 3/4**  
**Gwasanaeth ar gyfer defnydd o sylweddau sy'n problemau a mynediad at wasanaethau triniaeth arbenigol**

- Cyfeirio at CYPSSMS Barnardos, gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio safonol.

Manylion cysylltu:  
 Giselle Moran 01745817216

**Niwed Cudd**  
**Gwasanaeth ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan riant/gofalwr yn camddefnyddio sylweddau**

Cyfeirio at CYPSSMS Niwed Cudd Barnardos, gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio safonol.

Manylion cysylltu:  
 Noelle Kirk or Shae Thornhill 01745817216



## NODIADAU CYFARWYDDYD

### CAM 1 – Pryd y dylech sgrinio am ddefnyddio sylweddau.

- A oes unigolyn ifanc wedi dod atoch i ofyn am wybodaeth am sylwedd penodol?
- Ydych chi'n amau bod unigolyn ifanc yn ymwneud â defnyddio sylweddau, neu'n cael ei effeithio gan ddefnyddio sylweddau?
- A ddaethpwyd o hyd i geriach cysylltiedig â defnyddio sylweddau yn eich eiddo?
- A ganfuwyd bod unigolyn ifanc dan ddylanwad yn eich eiddo?
- A ganfuwyd unigolyn ifanc â geriach cysylltiedig â sylweddau yn ei feddiant?
- Ydych chi'n gweithio ag unigolyn ifanc y gellid dweud ei fod yn rhywun sydd mewn sefyllfa fregus o safbwynt defnyddio sylweddau?

Os ydych chi'n gallu ateb ydwd/do i unrhyw rai o'r cwestiynau hyn, ewch ymlaen i Gam 2

### CAM 2 - Cyfrinachedd

Oherwydd natur sensitif datgeliadau, neu ymholiadau gan bobl ifanc ynghylch defnyddio sylweddau, neu ddigwyddiadau cysylltiedig â sylweddau, mae'n bwysig fod gan yr unigolyn ifanc ddealltwriaeth glir o weithdrefnau rhannu gwybodaeth a'r camau posibl y gellid eu cymryd yn dilyn datgeliad.

Gallai peidio ag egluro polisïau o'r fath ar y cam hwn atal unigolyn ifanc rhag datgelu'n onest, neu arwain at ymddieithrio rhag atgyfeiriad posibl.

**Bydd ymarferwr camddefnyddio sylweddau pob unigolyn ifanc yn rhwym wrth bolisi cyfrinachedd eu sefydliad a chaiff hwn ei gyflwyno i unigolyn ifanc ar y cyswllt cyntaf.**

**Cofiwch ei bod yn ddyletswydd ar bob un ohonom i lynu wrth ein gweithdrefnau amddiffyn plant.**

### CAM 3 – Pam mae angen gwybodaeth am sylweddau ar yr unigolyn ifanc?

Nid yw'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau ond hoffai gael gwybodaeth gyffredinol.

Mae gwybodaeth generig am sylweddau ar gael o amrywiol ffynonellau y gall gweithwyr wyneb yn wyneb gael mynediad atynt yn rhwydd. Os ydych yn teimlo'n ansicr am yr wybodaeth rydych yn ei rhoi, mae gweithwyr camddefnyddio sylweddau pobl ifanc o bob haen ar gael i ymgynghori â nhw heb fod angen atgyfeiriad ffurfiol.

Mae'r unigolyn ifanc yn meddwl am ddefnyddio sylweddau.

Os bydd unigolyn ifanc yn datgelu wrthoch ei fod yn ystyried, neu'n bwriadu, defnyddio sylwedd, yna mae atgyfeiriad i wasanaeth Haen 2 yn briodol. Bydd gweithwyr Haen 2 yn gweithio â'r unigolyn ifanc i archwilio'r rhesymau pam ei fod yn meddwl am ddefnyddio. Bydd y broses hon yn arnog yr unigolyn ifanc i archwilio ei resymau dros ddefnyddio, neu dros feddwl am ddefnyddio sylweddau a beth yw goblygiadau gweithredu o'r fath. Bydd hyn yn galluogi'r gweithiwr i roi gwybodaeth gywir i'r unigolyn ifanc am statws cyfreithiol ac effeithiau meddyliol a chorfforol defnyddio sylweddau yn ogystal â thynnu sylw at beryglon posibl defnyddio sylweddau.

Mae'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau.

Pan fydd unigolyn ifanc yn datgelu ei fod yn defnyddio sylweddau, y sylweddau y mae'n eu defnyddio, y dull a ddefnyddir a pha mor aml y mae'n eu defnyddio fydd yn pennu pa wasanaeth sydd fwyaf priodol i'w atgyfeirio iddo. (Cam 4)

Nid yw'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau, ond mae defnydd rhywun arall o sylweddau'n effeithio arno/arni.

Yng nghyswllt pobl ifanc sy'n profi anawsterau oherwydd defnydd riant, brawd/chwaer neu ffrind o sylweddau, mae atgyfeiriad i wasanaeth Niwed Cudd yn briodol. Bydd gweithwyr Niwed Cudd yn darparu gwybodaeth gywir i'r unigolyn ifanc am y sylweddau dan sylw ac yn cynnig cymorth parhaus, lle bo hynny'n briodol, i'r unigolyn ifanc gyda'r mater.

Mae'r unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau ac mae defnydd rhywun arall o sylweddau'n effeithio arno/arni.

Os yw unigolyn ifanc yn defnyddio sylweddau ei hun a bod defnydd pobl eraill hefyd yn effeithio arno/arni, y sylweddau sy'n cael eu defnyddio, y dull a ddefnyddir a pha mor aml y maent yn cael eu defnyddio fydd yn pennu pa wasanaeth sydd fwyaf priodol i wneud atgyfeiriad iddo. (Cam 4)

### CAM 4 – Beth yw'r sylwedd y mae'r unigolyn ifanc yn ei ddefnyddio?

Os yw'r unigolyn ifanc yn chwistrellu unrhyw sylwedd, yna mae atgyfeiriad awtomatig i wasanaethau Haen 3 yn briodol. Gall gweithwyr Haen 3 roi gwybodaeth diogelwch i'r unigolyn ifanc am y defnydd mewnwythiennol o sylweddau, offer chwistrellu glân a gwybodaeth am leihau niwed fel rhan o becyn cymorth parhaus.

#### CAM 4 – Tabl.

Defnyddiwch y tabl hwn i bennu'r lwybr atgyfeirio priodol yn ôl y sylweddau sy'n cael eu defnyddio a pha mor aml y defnyddir hwynt. Os oes gan unigolyn ifanc broblemau cymhleth cysylltiedig â defnyddio sylweddau e.e. os yw'n defnyddio cannabis bob dydd a heroin bob wythnos, cysylltwch â gweithiwr Haen 2 neu 3 i drafod yr atgyfeiriad yn fanylach.

#### Diffiniad o'r Haenau

Haen 1: Cyffredinol – gwasanaethau generig a sylfaenol.

Haen 2: Gwasanaethau i bobl ifanc a gynigir gan ymarferwyr â gwybodaeth am gyffuriau ac alcohol a gwybodaeth ieuencid arbenigol.

Haen 3: Gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr arbenigol.

Haen 4: Gwasanaethau Preswyl ac Mewn Ysbyty (er enghraifft: dadwernwyno preswyl)

Niwed Cudd: Gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan riant/gofalwr yn defnyddio/camddefnyddio sylweddau